Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Treffynnon

Ysgol Gwenffrwd
Whitford Street
Holywell
Flintshire
CH8 7NJ

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Chwarae Treffynnon

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Treffynnon |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gfal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Heulwen Closs-Sharp |
| Person â gofal | Rachel Bedford ac Wiphawan Toone |
| Nifer y lleoedd | 22 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 8:45y.b. – 3:15y.h. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Gorffennaf 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/05/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles a Gofal** | **Da** |
| **Addysgu, Dysgu a Datblygiad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad yma.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau holi ymarferwyr er mwyn annog plant i ymateb yn fwy estynedig a chryfhau eu gallu i feddwl a datrys problemau yn annibynnol

A2 Sicrhau bod nifer priodol o ymarferwyr yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig llawn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles a Gofal: Da

Mae bron bob plentyn yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda'r ymarferwyr, sy'n eu galluogi i gyrraedd yn hapus ac i ymgartrefu'n gyflym. Mae llawer o blant yn hyderus i ofyn am gymorth, gan eu bod yn gwybod y bydd ymarferwyr yn ymateb yn brydlon i'w hanghenion. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys a'i werthfawrogi, sy'n meithrin ymdeimlad cryf o berthyn o fewn y lleoliad. Er enghraifft, mae gwaith pob plentyn ynghyd â lluniau o'r plant a'u teuluoedd yn cael eu harddangos yn amlwg ar y waliau.

Mae bron bob plentyn yn symud o gwmpas yr amgylchedd dysgu yn hyderus, gan archwilio'r ystod eang o brofiadau diddorol sydd ar gael. Maent yn rhannu eu syniadau'n naturiol wrth chwarae, gan deimlo'n sicr y bydd ymarferwyr yn gwrando arnynt. Mae ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i ddiddordebau'r plant, er enghraifft trwy addasu gweithgareddau neu greu cyfleoedd newydd sy'n deillio o'u syniadau. O ganlyniad, mae'r plant yn arwain eu dysgu a'u profiadau eu hunain yn effeithiol, ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig â gweithgareddau o'u dewis ar eu cyflymder eu hunain.

Mae ymarferwyr yn siarad â'r plant yn dyner ac yn fwriadus, gan ddefnyddio dulliau cyson ac effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol, yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn canmol y plant yn rheolaidd am eu hymdrechion, eu parodrwydd i helpu ac am wrando'n dda. Mae hyn yn cefnogi'r plant i ddatblygu medrau cymdeithasol cadarn ac i ryngweithio'n effeithiol ag eraill. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn gweithio'n gadarnhaol, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr a'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau cymdeithasu yn ystod amser cinio, sy'n cyfrannu at ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ei gilydd. Maent yn rhannu ac yn cymryd tro'n briodol. Er enghraifft, maent yn rhannu adnoddau wrth chwarae yn y twba dŵr ac yn cymryd tro i fynd i lawr y llithren.

Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am bob plentyn cyn iddynt ddechrau mynychu ac yn parhau i gyfathrebu'n effeithiol â rhieni. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i adnabod y plant yn dda ac i gynllunio i ddiwallu hoffterau, anghenion iechyd a gofynion dietegol y plant yn llwyddiannus. Mae gweithdrefnau clir ac effeithiol yn eu lle i gyfeirio plant yn amserol at asiantaethau allanol, gan hwyluso mynediad at gyngor a chymorth ychwanegol.

## Addysgu, Dysgu a Datblygiad: Da

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant ar gyfer y rhai tair a phedair oed. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad, nad ydynt yn cael addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd cartrefol lle mae plant yn datblygu drwy chwarae ac ymgysylltu mewn amrywiaeth o brofiadau. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod o adnoddau addas, yn enwedig adnoddau chwarae awyr agored, i feithrin chwilfrydedd, creadigrwydd ac annibyniaeth plant yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd bwriadus i blant arbrofi a dringo rhaffau, sy’n cryfhau eu medrau corfforol a’u hyder i gymryd risgiau wrth chwarae. Mae’r ardaloedd dan do ac awyr agored yn cael eu trefnu’n feddylgar. Mae offer wedi eu gosod o fewn cyrraedd y plant ac, o ganlyniad, mae plant yn symud yn hyderus rhwng gweithgareddau ac yn datblygu’n gynyddol annibynnol.

Mae ymarferwyr yn modelu gwerthoedd cadarn ac yn dangos caredigrwydd, parch ac empathi fel rhan naturiol o’u harferion dyddiol. Maent yn darparu cymorth sensitif i blant ac yn ymateb yn ofalgar i’w hanghenion a’u diddordebau. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn hapus ac yn teimlo’n ddiogel yn y lleoliad ac yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag oedolion a’u cyfoedion.

Mae ymarferwyr yn ymuno’n amserol â chwarae’r plant i gynnal eu diddordebau a datblygu eu medrau yn effeithiol. Maent yn modelu’r Gymraeg yn gyson yn ystod gweithgareddau dyddiol ac yn defnyddio adnoddau addas fel llyfrau a gemau i gyfoethogi medrau llafar, gwrando a darllen cynnar y plant. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio geirfa briodol yn ystod amseroedd byrbryd ac yn dechrau ymateb mewn brawddegau syml yn Gymraeg.

Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn defnyddio cwestiynu ac adborth yn briodol i gefnogi datblygiad plant. Fodd bynnag, ar adegau, mae oedolion yn gor-arwain y plant, ac mae’r defnydd o gwestiynau caeedig yn cyfyngu ar gyfleoedd i blant ymateb gan ddefnyddio brawddegau estynedig a datblygu eu medrau meddwl yn annibynnol yn llawn.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn gadarn. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau i ddatblygu dealltwriaeth y plant o degwch a diwylliannau eraill, gan gynnwys llyfrau, doliau a jig-sos perthnasol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio’n effeithiol ar sail tystiolaeth buddiol a gwybodus. Maent yn arsylwi ar blant yn rheolaidd er mwyn adnabod cynnydd a chamau datblygu pwysig. Defnyddir yr arsylwadau hyn i greu cofnodion manwl o gynnydd y plant dros amser. Mae’r cofnodion yn adnabod camau nesaf yn natblygiad pob plentyn ac yn llywio cynllunio pellach yn effeithiol, gan sicrhau dilyniant priodol yn eu dysgu.

Ar draws y lleoliad, mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Drwy wrando'n ofalus ar lais y plant, maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n cynnal chwilfrydedd a brwdfrydedd yn llwyddiannus, er enghraifft wrth i blant arbrofi gyda ffilteri wrth dynnu lluniau digidol gyda chamera.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelu plant. Maent yn sicrhau bod pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu perthnasol ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder am blentyn. Mae prosesau recriwtio'n ddiogel ac mae gweithdrefnau clir ar waith i sicrhau addasrwydd ymarferwyr. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n blaenoriaethu hapusrwydd, diogelwch a lles plant yn effeithiol. Maent yn creu ethos cadarnhaol lle mae ymarferwyr a phlant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae datganiad o ddiben clir ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad, gan alluogi rhieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd doeth o'r gyllideb a grantiau i gefnogi blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant. Er enghraifft, drwy ariannu gwelliannau i'r ardal allanol, darparwyd adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi datblygiad y plant ac yn cyfoethogi eu profiadau'n llwyddiannus.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r lleoliad yn canolbwyntio'n effeithiol ar ystod addas o dystiolaeth a mewnbwn gan yr holl rhanddeiliaid. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn briodol, ac yn cydweithio â'r ymarferwyr er mwyn gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn rhannu'r camau gweithredu yn synhwyrol ag ymarferwyr, gan ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o gyflawni eu blaenoriaethau.

Mae arweinwyr yn cefnogi lles ymarferwyr yn effeithiol drwy feithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol a darparu cymorth ac arweiniad priodol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn gyson. Mae arweinwyr yn gweithredu systemau effeithiol ar gyfer goruchwylio ac arfarnu, sy'n arwain at dargedau datblygu unigol cytûn ac yn hybu gwelliant parhaus ar draws y lleoliad. Cefnogir ymarferwyr i ehangu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol drwy hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r nifer ofynnol o ymarferwyr wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig llawn.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân. Maent yn gweithredu prosesau cadarn i fonitro a rheoli peryglon yn effeithiol. Mae asesiadau risg cynhwysfawr yn amlinellu peryglon posibl a'r camau i leihau neu ddileu risgiau i blant. Mae arweinwyr yn

gwneud defnydd effeithiol o'r lleoliad a chyfleusterau'r safle. Maent yn darparu offer addas ac ystod eang o adnoddau o ansawdd da sy'n hygyrch i blant. Mae hyn yn galluogi'r plant i wneud dewisiadau'n annibynnol.

Mae cydweithio effeithiol o fewn y tîm a gyda phartneriaid allanol yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfoes ac o ansawdd da. Yn ogystal, mae gan arweinwyr berthynas gadarnhaol â rhieni a gofalwyr. Maent yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol drwy sgyrsiau anffurfiol a systemau digidol yn effeithiol.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2026